# Newsletter

lgps 2014

## The New State Pension and National Insurance (N.I.) Changes

### (Ending of Contracting Out from 6th April 2016)

Welcome to the latest edition of the All Wales Pension Funds Newsletter (December 2015).

A new single tier, flat rate State Pension is being introduced for people who reach State Pension Age (SPA) **on or after 6th April 2016.** It will replace the existing two tier arrangement **1)** the Basic State Pension and **2)** the Additional State Pension (ASP) and should help individuals better understand what they will get, so that they can plan for their retirement.

As the Local Government Pension Scheme (LGPS) is 'contracted-out' of the ASP, scheme members are currently automatically taken out of the ASP during the time in which they are actively contributing to the LGPS. As a result, active members pay a lower amount of National Insurance (N.I.) contributions[1] (sometimes referred to as an N.I. rebate), as they are unable to contribute to the LGPS and pay full N.I. contributions to receive the ASP when they reach SPA.

**From 6th April 2016, active scheme members will be required to pay a higher amount of N.I. contributions.** If you are an active member or have left the LGPS and your pension is currently deferred, or you are already being paid your pension, but you have yet to reach SPA, it is important that you understand that if you are eligible for the new State Pension, **you might NOT receive the full amount.** This is because you have paid a lower amount of N.I. contributions in previous years, due to being contracted-out of the ASP whilst a member of the LGPS.

**Note that the introduction of the new State Pension will NOT affect your LGPS benefits** and that these benefits will continue to form an important part of your income in retirement.

[1]*Provided you are under SPA, have earnings over £112 per week / £486 per month (2015/16 figures) and you are not paying the Married Woman's / Widow's Reduced Rate of N.I. contributions.*

#### Will the benefits provided by the LGPS change?

There are **NO** plans to change the benefits the LGPS provides as a result of the introduction of the new State Pension.

#### Who will receive the new State Pension?

You will be able to claim the new State Pension if you are a man born on or after 6 April 1951; or a woman born on or after 6 April 1953; and normally, have at least 10 years qualifying years on your N.I. record.

If you reach your SPA before 6th April 2016, you will get your State Pension under the current arrangement instead. If you do not know your SPA, you can use the SPA calculator to find out:
**www.gov.uk/calculate-state-pension**

#### Where do I find out more information?

More information about the new State Pension can be found at;
**www.gov.uk/yourstatepension**

If you are age 55 or over, you can request an estimate of the State Pension you will receive under the new system at;
**www.gov.uk/state-pension-statement**

#### Why is the State Pension changing?

The Government's aim is to introduce a simpler, fairer system where people have a better idea about what pension the State will provide, making it easier to plan their retirement savings.

#### Will I qualify for the full amount of the new State Pension?

The new State Pension will be based on your N.I. contributions record and a new minimum qualifying period will be introduced. People with no N.I. contributions record before 6th April 2016 will need 35 qualifying years to get the full amount of new State Pension.

If you have paid into the LGPS between 6th April 1978 and 5th April 2016 and reach your SPA on or after 6th April 2016, the amount of new State Pension you receive will be reduced in respect of this period, to reflect the fact that you and your Employer have paid a lower rate of N.I. (due to the LGPS being contracted-out of the current additional State Pension).

If this applies to you, you are unlikely to receive the full amount of the new State Pension. However, this will depend on your individual N.I. record and how many qualifying years you have after April 2016.

#### How much will the full amount of the new State Pension be and will it provide enough income during my retirement?

The Government has confirmed the full amount of the new State Pension will be no less than £155.65 a week (to be confirmed). For further information about the calculation of the new State Pension and for a definition of a qualifying year, please refer to: **https://www.gov.uk/new-state-pension/overview**

The State Pension is only intended to make up part of your retirement income and will provide a very basic standard of living in retirement. It is important that you plan for your retirement, taking into account that:

- people are generally living longer, so you are likely to spend more time in retirement;
- you may want to retire before your SPA;
- if you were a member of the LGPS prior to 6th April 2016, you may not qualify for the full amount of the new State Pension.

The LGPS will continue to be an important part of your retirement planning. For information about the LGPS, please visit the Fund website or; **www.lgps2014.org**

pensions@rctcbc.gov.uk www.rctpensions.org.uk

# Newyddlen

cplll 2014

## Pensiwn Newydd y Wladwriaeth a newidiadau i Yswiriant Gwladol (Y.G.)

### (Diweddu Contractio Allan o 6ed Ebrill, 2016)

Croeso i rifyn diweddaraf o Newyddlen Cronfeydd Pensiwn Cymru (Rhagfyr 2015).

Bydd y Wladwriaeth yn cyflwyno pensiwn haen sengl ac iddo gyfradd wastad i bobl sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) **ar neu ar ôl 6 Ebrill, 2016.** Bydd hwn yn disodli'r trefniant dwy haen presennol **1)** Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth a **2)** Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth (PYW) a dylai helpu bobl i ddeall yn well yr hyn y byddant yn ei gael, fel y gallant gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad.

Gan fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) wedi ei 'gontractio allan' o'r PYW, mae aelodau'r cynllun ar hyn o bryd yn cael eu tynnu allan o'r PYW yn awtomatig yn ystod yr amser y maent yn cyfrannu fel aelod actif o'r CPLlL. O ganlyniad, mae aelodau actif yn talu swm is o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (Y.G.)[1] (y cyfeirir atynt weithiau fel ad-daliad Y.G.), gan nid yw'n bosib iddynt gyfrannu at y CPLlL a thalu cyfraniadau Y.G. llawn i dderbyn yr PYW pan fyddant yn cyrraedd OPW.

**O 6 Ebrill 2016, bydd yn rhaid i aelodau gweithredol o'r cynllun dalu swm uwch o gyfraniadau Y.G..** Os ydych chi'n aelod actif neu wedi gadael y CPLlL ac mae eich pensiwn wedi ei ohirio ar hyn o bryd, neu os ydych eisoes yn derbyn eich pensiwn, ond nid ydych wedi cyrraedd eich OPW eto, mae'n bwysig eich bod chi'n deall ei bod hi'n bosibl, a chithau'n gymwys ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth, **NA fyddwch chi'n derbyn y swm llawn.** Mae hyn oherwydd eich bod chi wedi talu llai o gyfraniadau Y.G. dros y blynyddoedd, gan eich bod wedi contractio allan o PYW fel aelod o'r CPLlL.

**Noder NI fydd cyflwyno Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn effeithio ar eich buddion CPLlL,** a bydd y buddion hyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o'ch incwm pan fyddwch yn ymddeol.

[1]*Ar yr amod eich bod o dan OPW, a'ch bod chi'n ennill dros £112 bob wythnos / £486 y mis (ffigurau 2015/16) ac nid ydych yn talu'r cyfraniadau cyfradd gostyngol o Yswiriant Gwladol Gwraig Briod / Gweddw.*

#### Fydd y buddion sy'n rhan o CPLlL yn newid oherwydd hyn?

Does **DIM** cynlluniau i newid buddion CPLlL yn sgil cyflwyno Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

#### Pwy fydd yn derbyn Pensiwn newydd gan y Wladwriaeth?

Bydd hawl gyda chi i bensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych chi'n ddyn, a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951; neu'n fenyw, a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953; a bod gyda chi, fel arfer, o leiaf 10 blynedd gymhwysol ar eich cofnod Y.G..

Os byddwch chi'n cyrraedd eich OPW cyn 6 Ebrill 2016, byddwch yn derbyn eich Pensiwn y Wladwriaeth o dan y cynllun presennol. Os nad ydych chi'n gwybod beth yw'ch OPW, yna defnyddiwch y gyfrifiannell OPW:
**www.gov.uk/calculate-state-pension**

#### Ble ydw i'n cael mwy o wybodaeth?

Mae mwy o wybodaeth am bensiwn newydd y Wladwriaeth i'w gael ar;
**www.gov.uk/yourstatepension**

Os ydych chi dros 55 mlwydd oed, mae modd ichi ofyn am amcangyfrif o bensiwn y Wladwriaeth y byddwch chi'n ei gael o dan y system newydd, drwy fynd i;
**www.gov.uk/state-pension-statement**

#### Pam newid Pensiwn y Wladwriaeth?

Nod y Llywodraeth yw cyflwyno system symlach a thecach i roi syniad mwy pendant i bobl ynglŷn â'r hyn y bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn ei ddarparu, gan ei gwneud hi'n haws iddynt gynllunio eu cynilion ar gyfer ymddeol.

#### Fyddai'n gymwys i gael y swm llawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth?

Bydd Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn seiliedig ar gofnod eich cyfraniadau Y.G., a bydd cyfnod cymhwyso gofynnol newydd yn cael ei gyflwyno. Bydd angen i bobl sydd heb gofnod o gyfraniadau Y.G. cyn 6 Ebrill 2016 gael 35 mlynedd cymwys i hawlio'r swm llawn.

Os ydych chi wedi talu i mewn i'r CPLlL rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 2016 a'ch bod chi'n cyrraedd OPW ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, bydd eich swm Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn llai â'r gyfer y cyfnod hwn, i adlewyrchu'r ffaith eich bod chi a'ch Cyflogwr wedi talu llai o Y.G. (gan fod y CPLlL wedi'i eithrio o PYW).

Os yw hyn yn berthnasol i chi, mae hi'n annhebygol y byddwch chi'n derbyn y swm llawn o bensiwn newydd y Wladwriaeth. Ond, bydd hyn yn dibynnu at eich cofnod Y.G. unigol, a sawl blwyddyn gymhwyso arall sydd gyda chi ar ôl Ebrill 2016.

#### Faint bydd swm llawn Pensiwn newydd y Wladwriaeth a bydd yn darparu digon o incwm ar ôl i mi ymddeol?

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau na fydd swm llawn Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn llai na £155.65 yr wythnos (i'w gadarnhau). Cyfeiriwch at y wefan isod am ragor o wybodaeth am gyfrifo'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth ynghyd â diffiniad o flwyddyn gymhwyso: **https://www.gov.uk/new-state-pension/overview**

Dim ond rhan fach o'ch incwm ymddeol yw Pensiwn y Wladwriaeth, a bydd yn rhoi safon elfennol o fyw i chi ar ôl i chi ymddeol. Mae'n bwysig eich bod yn cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad, gan gymryd i ystyriaeth:

- bod pobl yn tueddu byw yn hirach, felly mae'n debygol y byddwch chi'n treulio mwy o amser wedi i chi ymddeol;
- eich bod chi, o bosib, eisiau ymddeol cyn eich OPW;
- efallai na fyddwch chi'n gymwys i dderbyn Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn llawn, os oeddech chi'n aelod o CPLlL cyn 6 Ebrill 2016.

Bydd y CPLlL yn parhau i fod yn rhan bwysig o'ch cynlluniau ymddeol. I gael fwy o wybodaeth am y CPLlL, ewch i wefan y Gronfa neu: **www.lgps2014.org**

pensiynau@rctcbc.gov.uk www.rctpensions.org.uk

# New State Pension & LGPS National Insurance (N.I.) Database

How much more in National Insurance (N.I.) contributions will I have to pay?

The current N.I. rebate is 1.4% of pay between certain thresholds. From 6th April 2016, you will no longer receive this rebate and will pay the standard rate of N.I.. The examples within the table show how much extra N.I. contributions will be payable from 6th April 2016. (These examples assume the individual is over 21 years, are based on the current N.I. thresholds - 2015/2016 and have been calculated using the calculator; **http://nicecalculator.hmrc.gov.uk/Class1NICs1.aspx** ).

To find out how much more in N.I. contributions you will be paying from 6th April 2016, you can use the contributions calculator **http://lgps2014.org/contcalc/**. This calculates the N.I. rebate you are currently receiving, but from 6th April 2016, this rebate will no longer apply.

I cannot afford to pay the extra N.I. contributions. What can I do?

The new State Pension will only provide a very basic level of income in retirement meaning that the LGPS will remain an important part of your retirement planning. **Remember** that you will continue to get tax relief on your pension contributions, as your contributions are deducted from your pay before you pay tax.

You have flexibility to pay less pension contributions, with the option to pay half your normal contributions in return for building up half your normal pension (although you still retain full life cover and ill health cover). This is known as the **50/50 section** of the scheme and is designed to help members stay in the scheme, building up valuable pension benefits, during times of financial hardship.

What is the 50/50 Section?

The 50/50 section is designed to be a short-term option and your Employer is required to re-enrol you back into the Main section of the scheme every 3 years. This will be carried out in line with your Employer's automatic re-enrolment date.

The 50/50 Election form is available from your **Employer**, but further information can be found on the Fund website.

| Earnings | N.I. payable currently | N.I. payable from 6th April 2016 | Difference |
|---|---|---|---|
| £10,000 per year (£833.33 per month) | £14.50 per month | £19.36 per month | **£4.86 per month** |
| £15,000 per year (£1,250 per month) | £58.66 per month | £69.36 per month | **£10.70 per month** |
| £27,000 per year (£2,250 per month) | £164.66 per month | £189.36 per month | **£24.70 per month** |

## NOTICE TO ALL MEMBERS

What is the LGPS N.I. Database?

The Fund participates in a data sharing arrangement with other LGPS Pension Funds in England, Wales and Scotland. This is undertaken in order to comply with legal requirements contained in the LGPS's governing regulations.

Provisions contained in the LGPS Regulations 2013 mean that if a member of the LGPS dies, it is necessary for the Fund to know if the individual has other LGPS benefits elsewhere in the UK, so that the right death benefits can be calculated and paid to the deceased member's dependants.

As the LGPS is locally administered, each Pension Fund has its own benefit records, therefore it can be difficult to identify if an individual has other LGPS records elsewhere. In order to comply with the requirements set out above, the National Database will enable Funds to check if their members have LGPS pensions records with other Pension Funds.

What data is being shared?

For each member of the LGPS (whether active, deferred or a pensioner), the Database contains an individual's N.I. number, membership status, the last calendar year in which the membership status changed and a 4 digit number specific to the appropriate Pension Fund.

Who is hosting the Database?

The Database is hosted at the South Yorkshire Pensions Authority, an LGPS Pension Fund.

How will the data be processed?

The data held on the Database will be processed in accordance with the Data Protection Act 1998 and all other relevant legislation.

Is there another purpose to the Database?

An extract of the membership information contained in the Database will periodically be shared with the Department for Work and Pensions (DWP), so that the LGPS can join the **Tell Us Once** (TUO) service. TUO is a service offered in most parts of the UK when an individual registers a death. When the LGPS joins TUO and the death of an LGPS member is registered, the DWP systems will ensure that the LGPS Pension Fund is informed of the death, meaning that the member's record(s) can be updated quicker.

Who is the data shared with?

Other LGPS Pension Funds. These are all public bodies named in legislation as administering authorities of the LGPS. For the TUO service, an extract of the Database containing individuals' N.I. numbers will be securely shared with the DWP every month to maintain an up-to-date record of LGPS membership.

How long will this exercise continue for?

For as long as **a)** the relevant regulatory requirements remain, and **b)** the LGPS participates in the TUO service. In the event that neither of the above apply, the data sharing will cease to be undertaken.

Can I opt out of this data sharing?

No. As this data sharing is being undertaken to comply with a legal requirement, it is NOT possible for you to opt out of the data sharing.

# Pensiwn Newydd y Wladwriaeth a Bas Data Yswiriant Gwladol CPLIL

Faint o gyfraniadau Y.G. ychwanegol y bydd rhaid i mi dalu?

Mae'r ad-daliad Y.G. presennol yn 1.4% o gyflog rhwng trothwyon penodol. O 6 Ebrill 2016, NI fyddwch yn derbyn yr ad-daliad hwn, a byddwch yn talu'r gyfradd safonol o Y.G.. Mae'r enghreifftiau o fewn y tabl yn dangos faint o gyfraniadau Y.G. ychwanegol sy'n daladwy o 6 Ebrill 2016. (Mae'r enghreifftiau a ddangosir yn tybio bod yr unigolyn dros 21 mlwydd oed, ac yn seiliedig ar drothwyon Yswiriant Gwladol 2015/2016 gan ddefnyddio cyfrifiannell; **http://nicecalculator.hmrc.gov.uk/Class1NICs1.aspx** ).

Defnyddiwch y gyfrifiannell cyfraniadau i gael gwybod faint o gyfraniadau Y.G. yn ychwanegol y byddwch chi'n ei dalu o 6 Ebrill 2016 – **http://lgps2014.org/contcalc/**. Mae hyn yn cyfrif yr ad-daliad Y.G. rydych chi'n ei gael ar hyn o bryd, ond o'r 6 Ebrill 2016, ni fyddwch yn derbyn yr ad-daliad hyn.

Alla i ddim fforddio talu'r cyfraniadau Y.G. ychwanegol. Beth alla i ei wneud?

Dim ond lefel sylfaenol iawn o incwm y bydd y pensiwn newydd gan y Wladwriaeth yn ei roi unwaith ichi ymddeol, sy'n golygu y bydd CPLIL yn parhau i fod yn bwysig wrth i chi gynllunio ar gyfer ymddeol. **Cofiwch** y byddwch chi'n parhau i gael gostyngiad treth ar eich cyfraniadau pensiwn, gan fod eich cyfraniadau yn cael eu tynnu o'ch cyflog cyn i chi dalu treth.

Mae gennych hyblygrwydd i dalu llai o gyfraniadau pensiwn trwy dalu hanner eich cyfraniadau arferol a chronni hanner eich pensiwn arferol (er byddwch chi'n parhau i gadw'r yswiriant bywyd a gwarchodaeth salwch llawn). **50/50** ydy enw'r adran yma o'r cynllun, a'i nod yw cynorthwyo aelodau i aros yn y cynllun, gan gronni buddion pensiwn gwerthfawr, yn ystod cyfnodau o galedi ariannol.

Beth yw'r Adran 50/50?

Noder taw opsiwn ar gyfer y tymor byr yw'r adran 50/50, ac mae'n ofynnol i'ch Cyflogwr i'ch ail-gofrestru i'r Brif adran y cynllun bob tair blynedd. Caiff hyn ei wneud yn unol â dyddiad ymaelodi awtomatig eich Cyflogwr.

Mae ffurflen Ethol 50/50 ar gael oddi wrth eich **Cyflogwr**, ond am fwy o wybodaeth ewch i wefan y Gronfa.

| Enillion | Y.G. a dalwyd ar hyn o bryd | Y.G. a fydd yn daladwy o 6 Ebrill 2016 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| £10,000 y flwyddyn (£833.33 y mis) | £14.50 y mis | £19.36 y mis | **£4.86 y mis** |
| £15,000 y flwyddyn (£1,250 y mis) | £58.66 y mis | £69.36 y mis | **£10.70 y mis** |
| £27,000 y flwyddyn (£2,250 y mis) | £164.66 y mis | £189.36 y mis | **£24.70 y mis** |

## HYSBYSIAD I'R HOLL AELODAU

Beth yw Bas Data Y.G. y CPLIL?

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cymryd rhan mewn trefniant rhannu data gyda chronfeydd pensiynau CPLIL eraill yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gynhwysir yn y rheoliadau sy'n llywodraethu'r CPLIL.

Mae darpariaethau a geir yn Rheoliadau CPLIL 2013 yn golygu, os bydd aelod o'r CPLIL yn marw, mae angen i weinyddwyr y cynllun wybod os oedd gan yr unigolyn gyfnodau eraill o aelodaeth CPLIL mewn rhannau eraill o'r wlad, fel y gall y buddion marwolaeth gywir cael eu cyfrifo a'u talu i ddibynyddion yr aelod ymadawedig.

Gan fod y CPLIL yn cael ei weinyddu yn lleol, mae gan bob Cronfa Bensiwn cofnodion aelodaeth eu hun ac mae'n gallu bod yn anodd dweud os oes gan unigolyn gofnodion CPLIL eraill a lle mae'r rhain yn cael eu cynnal. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a nodir uchod, mae Bas Data cenedlaethol wedi cael ei ddatblygu a fydd yn galluogi cronfeydd i wirio a oes gan eu haelodau gofnodion pensiynau CPLIL mewn cronfeydd pensiwn eraill.

Pa ddata sy'n cael ei rannu?

Ar gyfer pob aelod o'r CPLIL (boed yn actif, gohiriedig neu bensiynwr), mae'r Bas Data yn dangos rhif Y.G. yr unigolyn, statws aelodaeth yr unigolyn, y flwyddyn galendr diwethaf fod statws aelodaeth wedi newid, a rhif pedwar digid yn cadarnhau'r Gronfa Bensiwn CPLIL lle mae record yr aelod yn cael ei gynnal.

Sut y bydd y data a gedwir ar y Bas Data yn cael ei brosesu?

Bydd y data a gedwir ar y Bas Data yn cael ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth berthnasol eraill.

Pwy sy'n cynnal y Bas Data?

Mae'r Bas Data yn cael ei gynnal gan Awdurdod Pensiynau De Swydd Efrog, sy'n Gronfa Bensiwn CPLIL.

A oes unrhyw ddibenion eraill y bydd y Bas Data yn cael ei ddefnyddio ar gyfer?

Bydd detholiad o'r wybodaeth aelodaeth a gynhwysir yn y Bas Data yn cael ei rannu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) o dro i dro fel y gall y CPLIL ymuno â'r gwasanaeth **Dywedwch Wrthym Unwaith (DWU)**. Mae'r gwasanaeth DWU yn cael ei gynnig ar draws rhan fwyaf o'r wlad pan fydd unigolyn yn cofrestru marwolaeth. Pan fydd y CPLIL yn ymuno gyda DWU a marwolaeth aelod o'r CPLIL yn cael ei gofrestru, bydd y systemau AGPh yn sicrhau bod y Gronfa Bensiwn CPLIL yn cael gwybod am y farwolaeth, sy'n golygu y gall cofnodion yr aelod cael ei brosesu yn gynt nag y byddai fel arall.

Gyda phwy a rennir y data?

Cronfeydd pensiwn CPLIL eraill. Mae'r rhain yn gyrff cyhoeddus a enwir yn y ddeddfwriaeth fel awdurdodau gweinyddu'r CPLIL. Ar gyfer y gwasanaeth DWU, bydd detholiad o Rifau Y.G. unigolion o'r Bas Data yn cael ei rannu yn ddiogel gyda AGPh bob mis er mwyn iddynt gadw cofnod cyfredol o aelodaeth y CPLIL.

Am ba mor hir bydd y rannu data yn cael ei wneud?

Am gyhyd ag **a)** bod gofynion rheoleiddio perthnasol yn parhau i fod, ac **b)** bod y CPLIL yn cymryd rhan yn y gwasanaeth DWU. Os ni fydd un o'r uchod yn berthnasol, yna bydd y rhannu data yn dod i ben.

A allaf optio allan o'r rhannu data?

Na. Gan fod y rannu data yn cael ei wneud yn rhannol i gydymffurfio â gofyniad cyfreithiol, NID yw'n bosibl i aelodau'r cynllun optio allan o'r rhannu data.